# Argymhelliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd i asesu'r system rheoli diogelwch bwyd yn Türkiye

Argymhelliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i archwilio rheolaethau Türkiye i sicrhau bod gweddillion plaladdwyr mewn cynhyrchion bwyd nad ydynt yn dod o anifeiliaid (FNAO) y bwriedir eu hallforio i Brydain Fawr yn cydymffurfio â'r terfynau gweddillion penodedig a osodwyd yn neddfwriaeth Prydain Fawr.

## Cefndir

Ym mis Mai 2023, gwnaeth yr ASB gyflwyno ei blaenoriaethau o ran cynnal archwiliadau trydedd wlad ar sail risg i Swyddfa Defra ar gyfer Sicrwydd Masnach SPS, i'w hystyried er mwyn eu cynnwys yng nghynllun archwilio rhyngwladol y DU. Un o'r blaenoriaethau hyn oedd archwilio system reoli Türkiye i sicrhau bod FNAO sy'n cael ei allforio i Brydain Fawr yn cydymffurfio â'n rheolaethau gweddillion plaladdwyr ar gyfer bwyd. Gan fod cynifer o fewnforion FNAO o Türkiye yn dod i Brydain Fawr, ac wrth ystyried y ffaith bod lefelau diffyg cydymffurfio'r nwyddau yn uchel, gellir cyfiawnhau rhoi sylw pellach i reolaethau Türkiye ar gyfer nwyddau FNAO sydd i'w hallforio i Brydain Fawr.

Mae yna hefyd nifer o nwyddau FNAO o Türkiye ar hyn o bryd sy'n destun rheolaethau mewnforio ychwanegol. Mae llawer o'r rheolaethau hyn wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn heb dystiolaeth ddigonol o welliant i gyfiawnhau eu dileu, sy'n awgrymu nad yw peryglon FNAO, yn enwedig gweddillion plaladdwyr, yn cael eu rheoli'n ddigonol ar lefel genedlaethol.

## Mai 2023, Argymhelliad yr ASB

Mae'r ASB yn argymell bod y DU yn ceisio archwilio Türkiye o ran rheoli a defnyddio plaladdwyr ym mhob nwydd FNAO. Fel astudiaeth achos, dylai'r archwiliad ganolbwyntio'n arbennig ar nwyddau lle mae problemau hirsefydlog o ddiffyg cydymffurfio heb eu datrys.